the family place foundation

yn cyflwyno...

CLYWCH FY LLAIS!

Pecyn adnoddau ar gyfer y teulu a'r cartref, a grëwyd gan ddefnyddio lleisiau pobl ifanc mabwysiedig ac â phrofiad gofal ym Mhowys.

the family place foundation

Principality Building Society Cymdeithas Adeiladu

Community Foundation Wales

SUT DDAETH Y PROSIECT I FOD



Dechreuodd y prosiect **‘Clywch Fy Llais’** pan ymunodd y Family Place Foundation â Chymdeithas Adeiladu Wales & Principality i gasglu barn pobl ifanc 13-18 oed sy’n byw ym Mhowys sydd â phrofiad gofal neu wedi’u mabwysiadu.

Bu’r adborth a dderbyniasom mor werthfawr, a daeth themâu i’r amlwg; felly penderfynasom greu pecyn adnoddau rhad ac am ddim ar gyfer y cartref a’r teulu, er mwyn sicrhau clywed lleisiau’r bobl ifanc hyn...

BYDDWCH REALISTIG EICH DISGWYLIADAU

Efallai nad yw pethau fel y bu i chi eu dychmygu.

Byddant yn meddwl...
'*O, rydym am achub plentyn, mae'n fêl i gyd*'
ond 'dyw e ddim, nag yw?

"DEWCH INNI FOD YN ONEST, 'DYDYM NI DDIM OLL YN ANGYLION BACH PERFFAITH AR Y DECHRAU, YDYM NI?"

"Gallai bod â disgwyliadau rhy fawr fod yn broblem"

RHOWCH AMSER IMI DYNA'R CWBL

'Dyw'r ysgytwad a gefais ddim yn peidio â bod ar chwarae bach.

"Peidiwch â dim ond tybio 'O, maen mhw'n iawn, mae nhw gyda fi nawr, mae hynny oll yn y gorffennol'...

'Dyw e ddim oll yn y gorffennol... Mae yn fy mhen i.'

"CEISIWCH DDEALL SUT DWI'N TEIMLO, A PHAM FI'N GWENUD YR HYN FI'N EI WNEUD"

"Mewn gwirionedd, rydych yn setlo potel o lemonêd, a nawr, yn sydyn, chi'n ei hysgwyd"

Byddwch amyneddgar, os gwelwch yn dda

FY HANES I YW I'W DDWEUD

Pwysigrwydd preifatrwydd

"'dych chi ddim am i bawb wybod eich busnes"

"Mae rhai gofalwyr maeth, os ydych yn mynd i siop gyda nhw, mae nhw fel 'o ie, ni'n maethu, ni'n maeth, ni'n maethu'... 'Dym ni ddim am i bawb wybod ein bod yn blant maeth."

PEIDIWCH Â CHYMRYD YMDDIRIEDAETH YN GANIATAOL

Onid yw'r ymddiriedaeth yno eto, byddwch gerllaw.



“O, daliwch afael, gallaf ymddiried ynoch. ’Dych chi ddim am fy nhaflu mas eto. ’Dych chi ddim am gael gwared arnaf. ’Dych chi ddim am wneud beth bynnag, fel y rhai diwethaf...”

“Os ydych yn cael diwrnod gwael, rhaid i chi allu ymddiried ynddynt er mwyn dweud wrthynt amdano. Onid ydych chi wir yn ymddiried ynddynt i ddweud wrthynt ... gallwch wybod y gallwch ddim ond bod gyda nhw”